

Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos Sadwrn, 24ain Ionawr 2015 yn Ystafell Gwynant, Plas y Brenin, Capel Curig

Presennol: Richard (RR) – Cadeirydd, Iolo (IPR), Eryl (EO), Gareth (GR), Sian Williams (SW), Mark (MW), Myfyr (MT), Gwyn (GW)

Ymddiheuriadau: Sian Shakespear, Dewi , Iolo (ap Gwyn), Elen, Eirwen

1.	<p><u>COFNODION</u></p> <p>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg Hydref 2014 fel rhai cywir.</p> <p>Materion yn codi</p> <p><u>Eisteddfod Genedlaethol 2014</u></p> <p>Adroddwyd bod ymateb wedi ei dderbyn gan Drefnydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn ymddiheuro am y problemau a wynebwyd gan y Clwb gyda'r ddarlith flynyddol ym Mhabell y Cymdeithasau y llynedd ac yn egluro y gobeithir drwy wahanol gamau a gyflwynwyd osgoi sefyllfa gyffelyb godi eto.</p> <p><u>Mynyddoedd Pawb</u></p> <p>Adroddwyd gan EO bod cynhadledd i'w chynnal ar y 7fed o Chwefror gyda'r Clwb yn ei noddi drwy gyfrannu £250 tuag at y costau o'i chynnal. Mae'r gwaith o baratoi gwefan a deiseb i'w chyflwyno i'r Cynulliad yn mynd yn ei flaen a bydd yn cael ei lansio yn y gynhadledd.</p> <p><u>Llyfryn Mynydda</u></p> <p>Adroddwyd gan EO nad oedd wedi cyfeirio at yr angen i'r Clwb gyfrannu swm pendodol o arian cyn symud ymlaen gyda'r prosiect.</p>
2	<p><u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2014</u></p> <p>Derbyniwyd cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd yng Ngwesty Victoria, Llanberis ar 22ain Tachwedd 2014.</p> <p>Nodwyd gan GR y gwnaed cyfraniad o £200 i Dîm Achub Llanberis fel arwydd o werthfawrogiad am eu cymorth yn dod ag aelod (Dafydd Jones) i lawr wedi damwain ar odre'r Elidir Fawr yn ystod y daith ar ddiwrnod y cyfarfod</p>
3	<p><u>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2015 - DARLITH</u></p> <p>Cytunwyd y byddai EO, ar ran y Clwb, yn gwahodd Iolo ap Gwynn i draddodi darlith flynyddol y Clwb yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod eleni. Pe na byddai'n derbyn, yna gofyn i Dei Tomos. Bod RR yn cael gair hefo Sian Shakespear ynglyn a'r trefniadau ymarferol sydd ynghlwm a chynnal y ddarlith yn yr Eisteddfod.</p>
4	<p><u>LLYFRYN MYNYDDA</u></p> <p>Cafwyd diweddariad gan EO ar y datblygiadau ynglyn a chyhoeddi llyfr swmpus safonol yn y Gymraeg ar fynydda yn dilyn ei drafodaethau hefo Myrddin ap Dafydd.</p> <p>Yn y drafodaeth ar y mater nodwyd y materion canlynol:</p> <p>Bod Gwasg Carreg Gwalch yn gefnogol i'r syniad o gyhoeddi llyfr o'r fath ac yn gweld marchnad iddo ac y byddent yn anelu i'w gyhoeddi ar gyfer y farchnad Nadolig 2016</p> <p>Gellid gwneud cais am grant yn 2015 tuag at y gost o'i gyhoeddi i'r Cyngor Llyfrau.</p> <p>Byddai angen i'r Clwb gytuno ar pa fynyddoedd i'w cynnwys yn y llyfr, paratoi y disgrifiadau a threfnu lluniau ar ei gyfer. Yn sgil hynny byddai unrhyw freindal a dderbynid o werthiant y llyfr yn dod i'r Clwb. Gallasai'r Clwb hefyd ystyried cyfrannu tuag at y prosiect fel y gellid cadw pris y llyfr yn rhesymol.</p> <p>Roedd y Pwyllgor yn gefnogol i'r syniad ond yn gweld bod angen mwy o wybodaeth ac y byddai EO angen cefnogaeth i symud ymlaen</p>

	<p>Cytunwyd</p> <p>1 Er mwyn symud ymlaen gyda'r prosiect y byddai EO yn cysylltu ag aelodaeth y Clwb i holi os oes unigolion gyda diddordeb mewn gwasanaethau ar banel a fyddai yn hyrwyddo'r cynllun</p> <p>2. Byddai EO yn cynnal trafodaethau pellach gyda Myrddin ap Dafydd er mwyn gweld pa gamau mae eu hangen i symud ymlaen</p> <p>3. Gofyn i Aneurin Phillips os byddai ganddo ddiddordeb mewn cynorthwyo'r prosiect o safbwynt y lluniau</p> <p>4. Nodi y gellid ystyried rhoi unrhyw elw a ddeilliai o gyhoeddi llyfr o'r fath i Gymdeithas Timau Achub Gogledd Cymru.</p>	
5	<p><u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u></p> <p>Adroddodd EO ei fod yn dechrau trefnu rhaglen weithgareddau am y cyfnod Ebrill i Orffennaf 2015. Mae yn anelu i gynnwys ambell i daith fyrrach ar Sadyrnau yn y rhaglen a byddai Arwel yn barod i gydlynu gweithgareddau dringo.</p> <p>Cytunwyd</p> <p>1. Dylid anelu i gynnal penwythnos yn Ne Cymru ym mis Medi os yn ymarferol</p> <p>2. Cynnal taith yn ardal Gyrn Goch/Gyrn Ddu rhywbryd</p> <p>3. Clustnodi dydd Sadwrn yn niwedd Mehefin ar gyfer Diwrnod Blasu (Gweler yr eitem nesaf)</p>	
6	<p><u>RHAGLEN HYFFORDDIANT.</u></p> <p>Cytunwyd gan na chynhaliwyd gweithgaredd cyffelyb ers peth amser bellach y dylid ceisio cynnal Diwrnod Blasu Gweithgareddau'r Clwb yn niwedd Mehefin gyda'r bwriad o gynnig amrywiaeth o deithiau o sgramblo hawdd i deithiau byr. Byddai hyn yn fodd i godi proffil y Clwb a hefyd o bosib yn ffordd o ddenu aelodau newydd.</p> <p>Cytunwyd y dylid cynnal Diwrnod Blasu yn niwedd Mehefin a thrafod union gynnwys y diwrnod a sut i'w hyrwyddo yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor ym mis Ebrill.</p>	
10	<p><u>OFFER</u></p> <p>Trafodwyd sefyllfa offer y clwb. Nododd MT er mwyn cydymffurfio a gofynion rheoli offer, y dylai cofnod gael ei gadw o holl offer y Clwb, pryd y'u prynwyd a pha ddefnydd wnaed ohonynt</p> <p>Cytunwyd gofyn i MT drafod hyn efo Arwel sydd yn cadw rhan helaeth o offer dringo'r Clwb.</p>	
11	<p><u>CYNGOR MYNYDDA PRYDEINIG</u></p> <p>Dim penodol i'w adrodd.</p>	
12	<p><u>PARTNERIAETH AWYR AGORED</u></p> <p>Dim penodol i'w adrodd.</p>	
13	<p><u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u></p> <p>Cytunwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar nos Lun 27 Ebrill yng Nghapel Curig os yn bosib.</p>	

